
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	16.04.21
Pwnc / Subject:	Cymwysterau Cymru: Cymwys ar gyfer y Dyfodol

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan Cymwysterau Cymru, ac mewn llawer o achosion, teimlwn fod cyfiawnhad clir dros unrhyw newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, rydym ni wedi codi ychydig o bryderon, yn ymwneud yn bennaf â maint ac ehangder rhai cymwysterau, er enghraifft iaith a llenyddiaeth. Yn ychwanegol, rydym hefyd wedi codi pryderon am ychydig o'r cynigion i greu cymwysterau newydd, fel y prawf hyfedredd mathemateg.

Rydym yn cefnogi'r cynigion i ddatblygu a chreu cymwysterau sy'n gosod disgwyliadau uchel ac yn herio dysgwyr tra'n sicrhau eu bod yn eu paratoi ar gyfer astudio, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Cymwysterau Cymru i barhau â'u hymgysylltiad ag ystod eang o randdeiliaid, a'r bwriad i barhau â'r rhyngweithio hwn fel rhan o'r broses ddylunio derfynol.

Er ein bod yn croesawu llawer o'r cynnig a amlinellir, byddai'n fuddiol deall yr ymagwedd at ddatblygu cymwysterau galwedigaethol a sut mae'r rhain yn darparu cynnig eang i ddysgwyr ochr yn ochr â'u cymwysterau TGAU. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gyfres o gymwysterau yn cynorthwyo dysgwyr i elwa ar ystod eang o gymwysterau sy'n diwallu eu hanghenion a'u dyheadau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cynigion

Rydym wedi grwpio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ôl y chwe Maes Dysgu a Phrofiad ('Maes'/'Meysydd'), fel y disgrifir yng Nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ('Canllawiau'r Cwricwlwm'). Ceir adran hefyd ar asesu'r hyn y mae Canllawiau'r Cwricwlwm yn cyfeirio atynt fel 'sgiliau cyfannol'.

Mae pob adran yn rhoi trosolwg o'r cynigion ynghyd â rhai cwestiynau yn gofyn am eich barn.

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth?

Pwnc	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Celf a Dylunio	x					
Drama	x					
Cerddoriaeth	x					

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r cynnig i adolygu a diwygio'r cymwysterau presennol hyn yn y Celfyddydau Mynegiannol. Byddai'n fuddiol sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn cymwysterau sy'n cynnig ymagwedd amlddisgyblaethol at y maes dysgu a phrofiad hwn. I gefnogi hyn, rydym yn cytuno y bydd yn bwysig gweithio'n agos â rhanddeiliaid wrth bennu cynnwys y cymwysterau newydd.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at dechnoleg ddigidol wrth gefnogi'r broses asesu. Bydd yn bwysig i asesu yn y celfyddydau adlewyrchu'r gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr artefact neu'r rhaglen, gan gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu uniongyrchol rhwng celf, yr arlunydd a'r gynulleidfa. Weithiau, ni chaiff hyn ei gefnogi'n ddigon da gan ddefnydd o dechnoleg ddigidol.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU newydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'n gryf y cynnig i greu cymhwyster TGAU newydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol i ddisodli cymhwyster TGAU presennol Astudiaethau'r Cyfryngau.

Mae hyn yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu cymhwyster sydd wedi'i gynllunio'n benodol i adlewyrchu gofynion maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Bydd hyn yn cefnogi cynnwys defnydd creadigol o'r cyfryngau at ddibenion artistig a chyfathrebu.

Hefyd, rydym yn cefnogi'r bwriad i ystyried llwybrau dilyniant a llwybrau gyrfa o ystyried y cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol ystyried sut bydd y cymhwyster TGAU hwn yn ymwneud ag agweddau cyffredin ar dechnoleg ddigidol a'r cyfryngau, y gellid eu cynnwys mewn cymwysterau TGAU eraill, fel TGCh a chelf a dylunio. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i sicrhau cydlyniaeth o fewn disgyblaethau, ac ar eu traws.

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i wneud yn siŵr fod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn croesawu'r bwriad i sicrhau bod cymwysterau eraill sy'n asesu dawns, fel y cymwysterau ISTD a BTEC, ar gael, ond rydym hefyd yn credu bod angen cymhwyster dawns wedi'i greu yng Nghymru sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Os nad yw cymhwyster ar gyfer dawns wedi'i gynnwys yn y portffolio cymwysterau llawn, gallai gyfyngu ar y dewis a'r hyblygrwydd i ddysgwyr, yn enwedig os ydynt eisiau cyfuno TGAU dawns â chymwysterau eraill y Celfyddydau Mynegiannol.

Os yw'r cynnig yn sôn am ddilyn y cymhwyster dawns TGAU sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Lloegr, mae perygl na fydd cynnwys y cymhwyster hwn yn adlewyrchu rhesymeg a dibenion penodol y Cwricwlwm i Gymru.

Efallai byddai Cymwysterau Cymru am ystyried sut gellid cysylltu arholiadau dawns ag arholi'r ddisgyblaeth hon mewn addysg gorfforol.

4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau i ysgolion yn y Celfyddydau Mynegiannol, sy'n cynnig ymagwedd amlddisgyblaethol?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau yn y Celfyddydau Mynegiannol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddewis eu maes astudio heb fod rhaid iddynt ganolbwyntio ar arbenigedd penodol neu gyfuno arbenigedd â disgyblaethau eraill y celfyddydau. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r cynnig ar gyfer dawnys a fydd yn dibynnu ar gymwysterau wedi eu creu yn Lloegr, credwn fod gorddibyniaeth ar gymwysterau fel y BTEC yn destun pryder, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y cymhwyster hwn. Yn ychwanegol, ac fel y soniwyd yn flaenorol, ni fydd y dull hwn yn adlewyrchu egwyddorion a rhesymeg y Cwricwlwm i Gymru, ac, yn benodol, pwysigrwydd y broses greadigol ym maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, sy'n elfen allweddol.

Efallai byddai Cymwysterau Cymru am ystyried cynnig llwybr penodol i ddisgyblaeth ochr yn ochr â llwybr amlddisgyblaethol wedi'i greu yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i gyfuno eu cryfderau a'u doniau artistig, lle bo'n briodol. I gefnogi llwyddiant hyn, dylid ystyried cefnogi dysgu proffesiynol a materion recriwtio wrth addysgu'r cymwysterau hyn, yn ogystal â gweithio'n agos â chymuned a diwydiant ehangach y celfyddydau mynegiannol i sicrhau bod y cymhwyster yn addas at ei ddiben yng Nghymru, ac yn ehangach.

Os bydd cyfuniad o gymwysterau wedi'u creu yng Nghymru a chymwysterau wedi'u creu yn Lloegr, bydd yn bwysig sicrhau bod profiadau dysgwyr yn deg o gymharu â meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Iechyd a Lles

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd sydd wedi'i fwriadu i gefnogi cyflwyno'r Maes cyfan hwn?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'n llwyr y cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd yn y Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles. Byddai'n anodd mesur ac asesu llwyddiant a chyflawniad mewn rhai agweddau ar iechyd a lles fel rhan o gymhwyster.

Awgrymwn na fyddai creu cyfres o gymwysterau llai o fewn y MDP hwn efallai'n fuddiol i ddysgwyr. Yn ein hadroddiad thematig '[lach a hapus](#)' (Estyn, 2019), fe wnaethom nodi: 'Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn defnyddio cymwysterau i

achredu dysgu'r disgyblion mewn addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae dysgu yn yr ysgolion hyn yn aml yn arwain at ganolbwyntio ar gwblhau tasgau'n gysylltiedig â'r cymhwyster ac mae gwersi'n llai tebygol o gynnwys profiadau dysgu ystyrlon a diddorol am faterion iechyd a llesiant pwysig. Yn yr ysgolion hyn, mae'r pwysau ar ddisgyblion i ennill achrediad ar gyfer dysgu wedi disodli gwerth cynhenid profiadau dysgu da yn ddi-fudd.'

Os ydynt am gael eu cynnwys, dylai cyfeiriadau at unrhyw gymwysterau llai gael eu geirio'n ofalus iawn i alluogi ysgolion i ddeall y bwriad drostynt.

Efallai byddai Cymwysterau Cymru am ystyried p'un a fyddai'r cymhwyster Dinasyddiaeth TGAU yn Lloegr yn ddefnyddiol fel cymhwyster wedi'i greu ar gyfer Cymru i helpu ehangu cwmpas y cymwysterau yn y maes dysgu a phrofiad hwn, ac fel ffordd o gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o ddemocratiaeth, gwleidyddiaeth a chyfraith.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant?

Pwnc	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Bwyd a Maeth	x					
Addysg Gorfforol	x					
Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg	x					

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r angen i adolygu a diwygio'r cymwysterau hyn. Dylent barhau i gefnogi dilyniant i ddysgu pellach, ac i gyflogaeth yn y dyfodol, yn ogystal.

Y Dyniaethau

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol?

Pwnc	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Busnes	x					
Daearyddiaeth	x					
Hanes	x					
Astudiaethau Crefyddol	x					

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn croesawu'r bwriad i adolygu a diwygio cynnwys ac asesiadau'r cymwysterau TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol. Hefyd, rydym yn croesawu'r sylwadau am greu cysylltiadau rhwng, ac o fewn, ystod y disgyblaethau. Bydd hyn yn parhau i gefnogi llwybrau i astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae addasrwydd y cymwysterau hyn i bob dysgwr yn faes i'w ystyried hefyd.

Rydym yn cefnogi'r sylwadau yn ymwneud â symleiddio'r cynnwys wrth gynllunio'r cymwysterau newydd ar gyfer y pynciau hyn.

Gallai fod yn fuddiol ystyried ffyrdd y gall cynnwys a modd asesu'r cymwysterau TGAU newydd hyn fod yn wahanol i'r cymwysterau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae achrediadau eraill, fel Gwobr John Muir, yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio elfennau o'r dyniaethau. Gellir ystyried y rhain i gefnogi cyfleoedd i fanteisio ar ddarpariaeth y tu allan i gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2.

Rydym yn meddwl ei bod yn synhwyrol sicrhau opsiwn ar gyfer achredu Astudiaethau Crefyddol, yn sgil ei statws fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n bosibl?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn gefnogi cyflwyno'r datganiad am yr hyn sy'n cyfrif yn y Dyniaethau, byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried p'un a oes dulliau eraill, er enghraifft i ystyried a ellid cynnwys yr elfen hon o 'gyfranogi' yn y cymwysterau TGAU yn benodol i bwnc sydd wedi'u cynllunio.

Wrth ddatblygu cymwysterau newydd, mae'n bwysig ystyried cysyniadau fel cynefin, cysylltiadau lleol-cenedlaethol-rhyngwladol a themâu trawsbynciol fel cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob opsiwn, nid o fewn un pwnc yn unig.

Bydd angen ystyried dysgu proffesiynol a goblygiadau arbenigaeth pwnc. Mae ein tystiolaeth arolygu a thematig yn dangos bod yr athrawon a'r adrannau mwyaf effeithiol yn meddu ar wybodaeth bwnc fanwl ac yn gallu addasu eu dulliau yn unol â hynny. Mae hyn yn dystiolaeth yn ein hadroddiadau thematig [gwella addysgu](#) ac [arfer dda yn y dyniaethau](#).

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster newydd integredig TGAU yn y Dyniaethau, os yw'n bosibl?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Er ein bod yn cydnabod y nod i annog dull amlddisgyblaethol o fewn y MDPH hwn, ac yn deall sut gallai rhai dysgwyr elwa ar hyn, rydym yn ansicr ynglŷn â'r rhesymeg i rai o'r newidiadau arfaethedig hyn, yn cynnwys gwneud hwn yn ddyfarniad dwbl.

Rydym yn cefnogi'r gofyniad i archwilio hyn yn fanylach. Bydd yn bwysig i unrhyw gymwysterau yn y dyfodol barhau i ddarparu manylder ac ehangder astudio digonol i alluogi pob un o'r dysgwyr i fynd ymlaen i astudio ymhellach, a chyflogaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn ansicr y bydd y cynnig hwn yn cynorthwyo dysgwyr yn ddigon da i fynd ymlaen i astudio disgyblaethau unigol mewn Safon Uwch.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymwysterau cyfunol newydd iaith a llenyddiaeth TGAU mewn Cymraeg a Saesneg i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol ar wahân?

Byddai pob un o'r cymwysterau TGAU cyfunol newydd hyn tua'r un maint ag 1½ cymhwyster TGAU

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Mae maint ac ehangder cymhwyster iaith / llenyddiaeth cyfunol yn ystyriaeth arwyddocaol. Pe bai'r cymwysterau hyn yn cael eu cyfuno, byddai dyfarniad deul yn well gan y byddai hyn yn cefnogi her, amser a dyfarniad priodol.

Gallai'r cynigion hyn atal dysgwyr sy'n astudio Saesneg / Cymraeg yn ddigon eang a manwl i gefnogi astudio yn y dyfodol, yn enwedig mewn Safon Uwch. Hefyd, gallai hyn atal cyfle i fanteisio ar gasgliad o lenyddiaeth ehangach, mwy amrywiol, cyfoethocach a fyddai'n sbarduno diddordeb dysgwyr mewn iaith a llenyddiaeth, fel ei gilydd.

Nid yw'n glir p'un a yw'r diffiniad o lenyddiaeth o fewn y cwrs cyfunol arfaethedig hwn yn cyd-fynd yn briodol â'r hyn a geir mewn Safon Uwch, er mwyn paratoi dysgwyr yn ddigonol i astudio ar y lefel hon. Diffinnir llenyddiaeth mewn datganiad ar wahân am yr hyn sy'n cyfrif yn y Cwricwlwm i Gymru. Y nod oedd rhoi amlygrwydd iddo, ac adlewyrchu pwysigrwydd rhoi profiadau i ddysgwyr sy'n meithrin cariad gydol oes at lenyddiaeth.

Ar hyn o bryd, mae dull heb haenau yn gweithio'n dda ar gyfer y cymwysterau iaith, ond o'i gymhwyso i lenyddiaeth, gallai olygu bod gormod o ddysgwyr yn dilyn testunau byrrach, sy'n aml yn llai heriol. Hefyd, gallai olygu bod pob un o'r dysgwyr yn astudio'r un testunau, ni waeth beth fo lefel yr her. Dylai testunau sy'n cael eu hastudio ar gyfer llenyddiaeth fod yn berthnasol ac yn gyfoes i ddysgwyr.

Rydym yn cytuno'n llwyr fod gweithio'n agosach â rhanddeiliaid wrth bennu cynnwys y cymwysterau newydd yn ffactor allweddol. Canfu ein hadroddiad thematig [Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf](#) fod dysgwyr yn teimlo'n gryf fod yr amodau asesu ar gyfer llenyddiaeth Gymraeg TGAU yn canolbwyntio gormod ar ddysgu cerddi ar gof [10 cerdd] a chymharu un o'r rhain â cherdd nas gwelwyd o'r blaen ar y papur. Mewn llenyddiaeth Saesneg, gofynnir iddynt gymharu dwy gerdd nas gwelwyd o'r blaen; felly, nid oes rhaid iddynt ddysgu unrhyw gerddi ymlaen llaw. Byddai'n well ganddynt fod y gofynion asesu yn canolbwyntio ar eu gallu i ddadansoddi a gwerthfawrogi barddoniaeth yn hytrach na'i dysgu.

Mae perygl na fydd cymhwyster cyfunol yn ddigon symudol, ac o ganlyniad, bydd yn golygu bod disgyblion o Gymru dan anfantais wrth gystadlu â dysgwyr o wledydd eraill. Os yw'r cymhwyster cyfunol yn parhau i fod yn ymagwedd, byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried gwneud hwn yn gymhwyster dyfarniad dwbl i helpu goresgyn heriau o'r fath.

Yn y fanyleb Cymraeg Iaith TGAU bresennol, mae 30% o'r meini prawf asesu yn ymwneud â llafaredd. Mae'n hanfodol cadw'r pwyslais ar siarad a gwrando, fel yn y fanyleb bresennol. Mae'r elfen lafar yn allweddol i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg, sy'n amlinellu'r targed uchelgeisiol i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Hefyd, mae'r agwedd hon yn fwy o flaenoriaeth yn y cymhwyster Cymraeg gan fod dysgwyr sy'n astudio'r pwnc yn dod o ystod o gefndiroedd ieithyddol, ac mae siarad yr iaith yn hanfodol i lwyddiant y cymhwyster.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddod â chymhwyster Cymraeg Ail Iaith TGAU i ben, a chreu cymhwyster TGAU newydd, mwy, wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg?

Byddai'r cymhwyster newydd tua'r un maint ag 1½ cymhwyster TGAU.

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'r cynnig i ddod â chymhwyster Cymraeg Ail Iaith TGAU i ben, a chreu cymhwyster newydd ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg. Byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried maint ac ehangder y cymhwyster hwn. Efallai y byddai un dyfarniad yn ddigonol os oes ffocws digon cryf yn parhau ar ddatblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr yn y Gymraeg. O gynyddu maint y cymhwyster, byddai angen ystyried materion dysgu a recriwtio proffesiynol ar gyfer athrawon.

Bydd yn bwysig ymgynghori'n rheolaidd ag arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch unrhyw newidiadau i'r cymhwyster hwn.

Mae'r fanyleb cwrs llawn (ddiwygiedig) bresennol Cymraeg Ail Iaith TGAU wedi gosod nodau dyheadol, lle mae'r prif ffocws asesu ar siarad a gwranddo [50%]. Mae hyn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yn bwysig cynnal y ffocws presennol ar fedrau siarad a gwranddo mewn unrhyw fanyleb newydd.

Dylid sicrhau mai'r nod allweddol yw mesur cynnydd dysgwyr wrth siarad Cymraeg â hyder a rhuglder cynyddol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac/neu yn ddigymell â phobl eraill. Yn ychwanegol, dylai dysgwyr gaffael y medrau angenrheidiol mewn rhuglder llafaredd a llenyddiaeth i gefnogi eu datblygiad ieithyddol. Efallai byddai Cymwysterau Cymru am ystyried dulliau llwyddiannus yn y sector Cymraeg i Oedolion i gefnogi'r datblygiadau hyn.

Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y cymhwyster yn cael ei fapio mewn perthynas â fframwaith fel y CEFR, er mwyn i ddysgwyr allu gweld sut mae eu cyflawniad yn cysylltu â chymwysterau iaith eraill yn ysbryd 'iaith sy'n ein cysylltu ni' y MDPH newydd.

Mae recriwtio a dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu Cymraeg yn ddau faes allweddol sy'n creu heriau. Fodd bynnag, gallai mwy o gydlyniant rhwng y sector Cymraeg i Oedolion a'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg fod yn fforwm gwerthfawr iawn i rannu arfer dda, methodoleg a dulliau cyffredin.

Er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ddeall manteision bod yn amlieithog, dylai'r cymhwyster hwn ystyried gwneud dysgwyr yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Felly, gall ymgysylltu â'r maes hwn feithrin balchder ymhlith dysgwyr yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru, yn ogystal â'r byd.

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu set o gymwysterau Cymraeg bach y gellir eu dilyn, yn ogystal â chymhwyster TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd continwmm y Gymraeg?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Byddem yn croesawu mwy o wybodaeth am y rhesymeg ar gyfer y cynnig hwn. Bydd angen ystyried maint ac ehangder y cymwysterau hyn, a ph'un a fyddant yn

cynorthwyo dysgwyr yn ddigon da i ddatblygu eu medrau iaith. Hefyd, byddem yn croesawu gwybodaeth ychwanegol am sut byddai'r cymwysterau hyn yn cefnogi ac yn ymestyn dilyniant i astudio yn y sector ôl-16.

Gan y byddai'r rhain yn cael eu hastudio yn ogystal â'r prif gymwysterau, mae angen mwy o eglurder ynglŷn â'r hydrinedd i ysgolion, pa mor gyfredol yw'r cymwysterau hyn, a sut byddai'r rhain yn cefnogi'r prif gymhwyster trosfwaol.

4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU wedi eu creu ar gyfer Cymru mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r achos i ailystyried y model ar gyfer addysgu ac asesu ieithoedd, i gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr arddangos medrau trawsieithu uwchlaw popeth.

Dylai unrhyw gymwysterau sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu ystod lawn y medrau iaith i adlewyrchu sut caiff iaith ei chaffael.

Gallai fod yn fuddiol mapio datganiadau 'gallu gwneud' cymwysterau llai wedi eu creu ar gyfer Cymraeg yn unol â'r CEFR (fel yr amlinellir yng nghynnig 5) a chymwysterau TGAU hefyd, o ran sicrhau bod cymhwysedd dysgwyr yn cael ei gydnabod yn ffurfiol. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i weld y llwybr dilyniant o ddysgu iaith gynnar a thu hwnt.

I atal y gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol, mae angen rhoi ystyriaeth sylweddol i oblygiadau o ran amser y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a materion recriwtio. Mae manylder yr astudio sy'n ofynnol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd eisiau astudio iaith yn y sector ôl-16, yn ffactor allweddol hefyd.

5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu set o gymwysterau Cymraeg, wedi eu creu ar gyfer Cymru, mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltu a dilyniant mewn dysgu ieithoedd?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn, ar y cyfan. Fodd bynnag, dylid ystyried gwneud yn siŵr nad yw'r rhain yn lleihau hyfywedd astudio ieithoedd rhyngwladol fel cwrs llawn.

Dylai unrhyw gymwysterau sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu ystod lawn y medrau iaith i adlewyrchu sut caiff iaith ei chaffael. Mae gallu gweithio ar draws ieithoedd mewn bywyd go iawn yn fedr pwysig a gwerthfawr. Dylai unrhyw gymwysterau newydd neu fach sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar gymhwysedd digonol mewn ystod eang o fedrau i alluogi dilyniant cadarn i astudio pellach.

Byddai angen rhoi ystyriaeth briodol i opsiynau asesu ar gyfer y cymhwyster hwn i leihau risg dysgu ar y cof ar draul annibyniaeth.

Dylai cyfeirio cymwysterau TGAU a set o gymwysterau bach, wedi eu creu ar gyfer Cymru yn ôl y CEFR, bwysleisio ac egluro'r dilyniant rhwng y naill a'r llall, fel eu bod nid yn unig yn cael eu gweld fel cymwysterau ar eu pennau eu hunain, ond y gellir eu hystyried hefyd fel llwybr dilyniant o ddysgu iaith yn y sector cynradd, hyd at oedran gadael yr ysgol, a thu hwnt.

Rydym yn cefnogi nodau dysgu ieithoedd lluosog yn y sector ôl-14. Fodd bynnag, rydym yn gweld hyn fel nod tymor hwy, gyda chamau tymor byr a thymor canolig. Hefyd, mae angen polisi strategol cydlynus ar gyfer ieithoedd sy'n ystyried recriwtio athrawon a dysgu proffesiynol.

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i wneud yn siŵr fod dysgwyr ac ysgolion yn gallu parhau i ddilyn ystod o gymwysterau iaith Arwyddion Prydain, yn cynnwys unrhyw gymwysterau TGAU newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr ac yn croesawu'r dull cynhwysol y bydd hyn yn parhau i'w hyrwyddo.

Bydd y cynigion yn cefnogi'r arweiniad ychwanegol ar Iaith Arwyddion Prydain, ac yn sicrhau bod y dysgwyr byddar a dysgwyr â nam ar eu clyw yn gallu cael addysg yn yr iaith o'u dewis nhw.

Mathemateg a Rhifedd

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU cyfunol Mathemateg a Rhifedd i ddisodli'r ddau gymhwyster TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd?

Byddai'r cymhwyster TGAU newydd tua'r un maint ag 1½ cymhwyster TGAU.

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r cynnig i gyfuno'r ddau gymhwyster, er nad ydym yn cytuno'n llawn â'r cynnig i wneud y cymhwyster cyfunol newydd hwn gyfwerth ag un a hanner cymhwyster TGAU.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addysgu'r ddau gymhwyster gyda'i gilydd. Yn ychwanegol, mae goryffwrdd mawr yng nghynnwys y ddau gymhwyster presennol, ac felly byddai cyfuno'r rhain yn un cymhwyster yn lleihau'r baich asesu ar ymgeiswyr. Hefyd, byddai'r dull hwn yn galluogi i gwestiynau gael eu gosod mewn cyd-destunau mwy dilyd a heriol.

Mae'r cwricwlwm mathemateg a rhifedd newydd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu'r pum hyfedredd canlynol:

- dealltwriaeth gysyniadol

- cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- rhuglder
- rhesymu rhesymegol
- cymhwysedd strategol

Credwn y bydd cyfuno'r ddau gymhwyster yn cynorthwyo athrawon i gynllunio cyfleoedd cryfach i ddysgwyr ddatblygu'r hyfedreddau hyn mewn ystod eang o gyd-destunau. Yn ychwanegol, mae cyflogwyr yn nodi eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gael dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol y gallant eu cymhwyso yn y gweithle. Datblygwyd Cwricwlwm i Gymru i alluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth fanylach o fathemateg er mwyn iddynt fod yn hyblyg a chymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau i sefyllfaoedd anghyfarwydd. Bydd uno'r cymwysterau hyn yn cefnogi'r nodau hyn.

Hefyd, bydd y cymhwyster newydd hwn yn helpu cyflogwyr i ddeall y cymwysterau y bydd dysgwyr yn meddu arnynt yn haws, a byddant yn gwneud y cymhwyster yn debycach i'r gwledydd cartref eraill. Bydd hyn yn galluogi ein dysgwyr i gael eu trin yn deg wrth wneud cais i astudio ymhellach neu am gyflogaeth y tu allan i Gymru.

Mae ein tystiolaeth arolygu yn dangos bod gormod o addysgu yn cael ei roi ar brawf ar hyn o bryd, a allai atal dysgwyr rhag datblygu eu hyfedreddau mathemategol, a chael dealltwriaeth ddigon manwl o gysyniadau mathemategol. Felly, gallai fod yn werth ystyried rhoi camau ar waith i leihau pa mor rhagweladwy yw cwestiynau mewn arholiadau i annog athrawon i ddatblygu mathemategwyr mwy cyflawn a hyblyg.

Mae cyflwyno'r cymhwyster mathemateg-rhifedd yng Nghymru wedi cefnogi'r gwelliant ym mherfformiad Cymru mewn mathemateg yn PISA dros y ddau gylch diwethaf. Mae dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach o gysyniadau mathemategol y gallant eu haddasu a'u cymhwyso i ddatrys problemau. Nododd ein hadroddiad thematig ar y [cymwysterau TGAU newydd](#) (Estyn, 2018) fod gwelliannau yn ansawdd yr addysgu mewn mathemateg gan fod canolfannau wedi nodi anhawster 'hyfforddi' dysgwyr i lwyddo yn y cymhwyster mathemateg-rhifedd. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o ganolfannau yn rhoi mwy o bwyslais ar baratoi disgyblion ar gyfer y cymhwyster mathemateg TGAU mwy rhagweladwy. Bydd cyfuno'r ddau gymhwyster yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r pum hyfedredd sydd wedi'u cydblethu.

Nid ydym yn cytuno'n llawn â'r cynnig i wneud y cymhwyster cyfunol newydd hwn gyfwerth ag un a hanner cymhwyster TGAU. Gallai fod yn fuddiol ystyried hwn fel cymhwyster dyfarniad dwbl (cyfwerth â dau gymhwyster TGAU) i alluogi pob dysgwr yng Nghymru i gael cydnabyddiaeth am yr ystod eang o astudio sy'n ofynnol, ac osgoi lleihau'r cysyniadau a hyfedreddau mathemategol sy'n cael eu haddysgu.

Mae'n bwysig fod yr holl gymwysterau sy'n cael eu datblygu yn cefnogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth a'u cefnogi i fynd ymlaen i gymryd eu camau nesaf, a dechrau cyflogaeth neu addysg bellach neu hyfforddiant.

Mae Conffederasiwn Diwydiant Prydain wedi nodi mai lefelau llythrennedd a rhifedd uchel sydd wrth wraidd economi. Mae sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn meddu ar fedrau mathemateg a rhifedd da yn bwysig ar gyfer dyfodol economi Cymru.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster bach newydd y gellir ei ddilyn yn ogystal â'r cymhwyster TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrin?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Nid ydym yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno prawf hyfedredd rhifiadol, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrin, a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod ymhellach. Rydym yn cyflwyno'r rhesymau canlynol ar gyfer ein barn:

- Mae ffocws clir yn y cwricwlwm mathemateg a rhifedd newydd ar ddatblygu'r pum hyfedredd. Bu gwelliannau o ran addysgu mathemateg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gydag athrawon yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatrys problemau a rhesymu'n fathemategol. Hefyd, mae natur anrhagweladwy'r papurau mathemateg-rhifedd yn annog athrawon i addysgu dysgwyr i ddeall mathemateg yn hytrach na 'hyfforddi' dysgwyr i lwyddo yn y prawf. Gallai'r prawf 'hyfedredd rhifiadol' ar-lein hwn danseilio'r gwaith. Dylai'r cymhwyster craidd newydd fesur hyfedreddau rhifiadol dysgwyr. Yn ychwanegol, gallai'r ffaith y byddai dysgwyr yn gallu cymryd yr asesiad hwn nifer o weithiau leihau dilysrwydd y cymhwyster.
- Mae cyflogwyr yn awyddus i gael cyflogeion sy'n meddu ar fedrau cryf mewn llythrennedd, rhifedd a datrys problemau. Mae'n debygol y byddai cymhwyster yn cyfyngu ar gyfleoedd dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso eu medrau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.
- Efallai na fydd cyflogwyr, colegau a phrifysgolion yn deall y cymhwyster hyfedredd newydd hwn, a gallai roi dysgwyr sy'n cyflawni hwn dan anfantais, o gymharu â chymhwyster mewn mathemateg a rhifedd. I oresgyn hyn, byddai angen cryn dipyn o farchnata i gynorthwyo'r holl randdeiliaid i'w ddeall. Wrth ystyried cymhwyster tebyg ar gyfer llafaredd mewn Cymraeg a Saesneg yn y gorffennol, nid oedd hwn yn cefnogi

dilyniant dysgwyr nac yn galluogi'r gymuned ehangach i ddeall beth oedd yr agwedd hon ar y cymhwyster.

- Wrth addysgu dysgwyr sy'n wynebu anawsterau o ran deall mathemateg, os yw'r athro yn llwyddo i greu amgylchedd cefnogol ac mae'r addysgu yn ddigon cryf, yna gall pob dysgwr fwynhau mathemateg a datblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth.

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Lefel 2 ar gyfer Cymru mewn Mathemateg Ychwanegol?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno'n gryf â'r cynnig i greu cymhwyster Lefel 2 ar gyfer Cymru mewn Mathemateg Ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant dysgwyr yn dda, mae nifer dda o ddysgwyr yn ei ddilyn, ac mae adborth dysgwyr yn gadarnhaol, ar y cyfan.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol?

Pwnc	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Cyfrifiadureg	x					
Yr Amgylchedd Adeiledig	x					
Dylunio a Thechnoleg	x					

Technoleg Ddigidol	x					
---------------------------	---	--	--	--	--	--

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r cynnig i beidio â datblygu un cymhwyster cyffredinol mewn technoleg. Er bod cysylltiadau rhwng disgyblaethau, byddai'n anodd i gymhwyster cyffredinol roi dysgu digon manwl i ddysgwyr ym mhob maes i ganiatáu ar gyfer astudio pellach. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i fanylebau cymwysterau ar wahân amlygu gorgyffwrdd clir rhwng disgyblaethau o fewn y MDPH ble maent yn bodoli.

Efallai byddai Cymwysterau Cymru am ystyried yr ymagwedd at dechnoleg ddigidol a chyfrifiadureg i sicrhau bod dysgwyr yn weithredol gymwys yn ddigidol, ond eu bod hefyd yn cael cyfleoedd i reoli a rhaglennu technoleg. Gallai hyn helpu elwa ar y cysylltiadau rhwng y ddau gymhwyster fel elfennau codio, data a chyfathrebu.

2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU newydd mewn Peirianeg a Gweithgynhyrchu?

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn, ar y cyfan. Bydd yn bwysig cael bwriadau a phrosesau asesu wedi'u diffinio'n glir o fewn y cymhwyster hwn, yn cynnwys defnyddio'r cysylltiadau pwysig rhwng meysydd dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd a gwyddoniaeth a thechnoleg.

Gallai'r cynnig ar gyfer cymhwyster TGAU Peirianeg gefnogi dilyniant dysgwyr yn y dyfodol yn dda trwy eu galluogi i ddatblygu a chymhwyso medrau mathemateg a gwyddonol mewn cyd-destun pwrpasol ac ystyrlon.

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU newydd mewn Gwyddoniaeth i ddisodli'r set bresennol o gymwysterau Gwyddoniaeth TGAU?

Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua'r un maint â dau gymhwyster TGAU.

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cynnig i greu cymwysterau gwyddoniaeth TGAU newydd. Fodd bynnag, nid ydym yn gwbl gefnogol i ddileu cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân. Mae'r rhain yn gymwysterau buddiol iawn ar gyfer dysgwyr sy'n cefnogi dilyniant yn y dyfodol yn dda.

Mae'n ddefnyddiol ystyried y negeseuon o PISA 2018; mae dysgwyr gallu canolog a gallu is Cymru yn cymharu'n eithaf da â gwledydd eraill ar gyfer y gwyddorau. Ein 10% o ddysgwyr gwyddoniaeth sy'n perfformio orau sy'n tangyflawni o gymharu â dysgwyr tebyg ar draws y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae hyn, ynghyd â'n profiad fod dysgwyr yn gweld y newid o Wyddoniaeth TGAU (dyfarniad dwbl) i lefel astudio UG yn hynod heriol, yn awgrymu bod angen ystyried y safonau a'r disgwyliadau ar gyfer gwyddoniaeth mewn TGAU yn ofalus.

O ran terfynu cymwysterau TGAU y gwyddorau ar wahân, nid yw'n glir p'un a fydd y cymhwyster gwyddoniaeth dyfarniad dwbl yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr yn ddigonol.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y byddai'r llwybr gwyddorau cymhwysol presennol yn elwa ar newid a bod terfynu'r llwybr yn opsiwn dilys. Bydd hyn yn ychwanegu at y gofynion ar ystod y dyfarniad dwbl, y bydd angen iddo ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr trwy sicrhau bod cynnwys yn berthnasol i'w profiad, ac y bydd yn ddefnyddiol yn ddiweddarach yn eu bywydau.

4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu set o gymwysterau gwyddoniaeth bach y gellir eu dilyn yn ogystal â'r cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig?

Mae'r unedau hyn yn debygol o fod gyfwerth o ran maint â naill ai traean neu ddau draean o gymhwyster TGAU.

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Byddem yn croesawu mwy o wybodaeth am y rhesymeg ar gyfer y cynnig hwn. Er y gallai fod manteision i'r dull hwn, bydd angen ystyried maint ac ehangder y cymwysterau hyn, a ph'un a fyddent yn cefnogi dysgwyr yn ddigon da i ddatblygu eu medrau gwyddonol. Hefyd, gallai fod yn anodd i gyflogwyr a phrifysgolion ddeall gwerth cymwysterau o'r fath, a byddem yn awgrymu y dylid ystyried hyn yn ofalus.

Gan y byddai'r rhain yn cael eu hastudio yn ogystal â'r prif gymwysterau, mae angen mwy o eglurder ynglŷn â hydrinedd i ysgolion, pa mor gyfoes yw'r cymwysterau hyn a sut byddai'r rhain yn cefnogi'r prif gymhwyster trosfwaol.

Mae perygl y gallai unrhyw sefydliadau dyfarnu ei chael yn anodd cynnig y cymwysterau ychwanegol hyn o ganlyniad i nifer fach y disgyblion a allai fod yn dymuno eu dilyn yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol.

Medrau Cyfannol

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau i'w gwneud yn symlach a mwy hylaw, gyda ffocws ar asesu Medrau Cyfannol:

- Creadigrwydd ac Arloesedd
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Effeithiolrwydd Personol
- Cynllunio a Threfnu

Cytuno'n gryf

Tueddu i gytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r angen i wneud y cymhwyster hwn yn fwy hylaw. Dylai'r cynnig hwn helpu dysgwyr a chanolfannau i gael dealltwriaeth well o'r cymhwyster a'i fanteision.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i gynllunio Tystysgrif Her Sgiliau sy'n asesu pob un o'r pedwar medr cyfannol. Bydd hyn yn annog canolfannau i gefnogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn ar draws pob elfen.

O ran asesu medrau yn y cymhwyster hwn, wrth ei ddatblygu, mae'n bwysig egluro'r disgwyliadau ar gyfer medrau, ac amlinellu sut gellir eu hasesu. Bydd hyn yn cynorthwyo athrawon i roi pwyslais addas ar ddatblygu medrau dysgwyr. Yn ychwanegol, bydd yn bwysig fod medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cyfannol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynorthwyo dysgwyr i barhau i ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn mewn ystod o gyd-destunau.

Cwestiynau am asesu effaith

Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i Cymwysterau Cymru asesu effaith debygol gadarnhaol a negyddol y penderfyniadau rheoleiddio a wnawn. Hefyd, mae'n ofynnol i ni asesu effaith bosibl ein penderfyniadau am reoleiddio ar y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae hefyd yn ofynnol i ni ystyried effaith bosibl y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

1. Mewn perthynas â'r effeithiau a nodwyd gennym ni, a oes yna unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i'w lleihau?

Os felly, amlinellwch y camau hyn yn y gofod isod.

Mae Cymwysterau Cymru wedi nodi llawer o'r risgiau pwysig a'r camau i liniaru'r rhain. Fodd bynnag, trwy gydol ein hymateb, rydym wedi nodi pryderon penodol, fel creu cymwysterau llai a lleihau maint cymwysterau. Efallai byddai Cymwysterau Cymru am nodi camau i liniaru yn erbyn y rhain.

2. A oes yna unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar gyfer unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig nad ydym wedi eu nodi?

(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod).

Oes – mae yna effeithiau cadarnhaol eraill

Oes – mae yna effeithiau negyddol eraill

Nac oes – nid oes yna unrhyw effeithiau eraill

Ansicr

Os ydych chi wedi nodi effeithiau eraill, yna esboniwch nhw isod.

Er ein bod yn croesawu llawer o'r cynnig a amlinellir, byddai'n fuddiol deall yr ymagwedd at ddatblygu cymwysterau galwedigaethol. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gyfres o gymwysterau yn cynorthwyo dysgwyr i ddilyn ystod eang o gymwysterau i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau.

3. A oes yna unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad ydym ni wedi eu nodi?

(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)

Oes – mae yna effeithiau cadarnhaol eraill

Oes – mae yna effeithiau negyddol eraill

Nac oes – nid oes yna unrhyw effeithiau eraill

Ansicr

Os ydych chi wedi nodi effeithiau eraill, yna esboniwch nhw isod.

Byddai yna effaith negyddol pe bai cyrff dyfarnu eraill yn gwrthod cynnig cymwysterau yn ddwyieithog.

4. A oes yna unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol mewn perthynas â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg nad ydym wedi eu nodi?

(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)

Oes – mae yna effeithiau cadarnhaol eraill

Oes – mae yna effeithiau negyddol eraill

Nac oes – nid oes yna unrhyw effeithiau eraill

Ansicr

Os ydych chi wedi nodi effeithiau eraill, yna esboniwch nhw isod.

Bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a byddant yn cefnogi Cymru i sicrhau dewis teg, cydlynus a dwyieithog o gymwysterau ar gyfer pob dysgwr 16 mlwydd oed.

Bydd yn bwysig i'r holl ddysgwyr / canolfannau allu mynd at ddogfennau ac arweiniad dwyieithog i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Hefyd, mae'n hanfodol bod yr holl gymwysterau yn cael eu cynnig yn ddwyieithog i ddiwallu angen polisi Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'.

Dylai Cymwysterau Cymru anelu at sicrhau bod yr holl gymwysterau yn y dyfodol sy'n cael eu datblygu yn benodol ar gyfer Cymru ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

5. A oes yna unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill nad ydym wedi eu nodi?

(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)

Oes – mae yna effeithiau cadarnhaol eraill

Oes – mae yna effeithiau negyddol eraill

Nac oes – nid oes yna unrhyw effeithiau eraill

Ansicr

Os ydych chi wedi nodi effeithiau eraill, yna esboniwch nhw isod.

Ni ellir cymharu'r effaith ar faint yr 1.5 cymhwyster TGAU mewn pynciau â phynciau tebyg a gynigir yn Lloegr.